# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Guto Nyth-brân a'r Cyw Cloff: dau redwr rhagorol**

Petaech chi'n gofyn i unrhyw Gymro neu Gymraes enwi rhedwr Cymreig, mae'n ddigon posibl mai'r ateb cyntaf a gaech fyddai Colin Jackson yn achos rhedwyr y cyfnod diweddar. Ond yr enw cyntaf yn hanesyddol, mae'n bur debyg, fyddai Guto Nyth-brân o blwyf Llanwynno – neu Griffith Morgan (1700–37), a rhoi iddo ei enw 'swyddogol'.

Un o hen blwyfi mawr Blaenau Morgannwg yw Llanwynno, yn ymestyn yn wreiddiol o ardal Aberpennar yn y gogledd hyd at Bontypridd yn y de, ac o afonydd Taf a Chynon yn y dwyrain hyd at afon Rhondda Fach yn y gorllewin. Fel yr awgryma ei lysenw, cartref Guto oedd ffermdy Nyth-brân yn ne-orllewin y plwyf, ar y llethrau uwchlaw'r Porth a Threhafod yng Nghwm Rhondda. 'Y mae'r mymryn o ffeithiau a wyddys amdano', meddai R. T. Jenkins am Guto yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*, 'i'w weld yn y llyfr diddan *Plwy Llanwynno*, gan "Glanffrwd" [sef William Thomas (1843–90), clerigwr a aned yn Ynys-y-bŵl ym mhlwyf Llanwynno], a chyda'r ffeithiau gryn swm o chwedloniaeth y fro ynghylch Guto.'

Ymhlith yr hanesion am gampau rhedeg Guto yn llyfr Glanffrwd, mae un amdano'n cychwyn am Aberdâr i brynu burum wrth i'w fam osod y tegell ar y tân i ddechrau paratoi brecwast, a Guto'n cyrraedd yn ôl erbyn bod brecwast yn barod. Adroddir amdano'n rhedeg yn erbyn ceffyl gŵr bonheddig ac yn ennill, a sonnir fel y byddai wrth hela yn llwyddo i redeg ochr yn ochr â'r cŵn, 'dros dwyn a phant, trwy ddrysni y cymoedd ac unigedd y bryndir, […] ac yn fynych yn dal y llwynog gerfydd ei gynffon'.

Ond yr enwocaf o'r hanesion yn ddi-os yw stori ei ras olaf, sef ras ddeuddeg-milltir, o Gasnewydd i Fedwas ger Caerffili, yn erbyn Sais o'r enw Prince 'am swm mawr o arian'. Aeth Prince ar y blaen yn fuan a Guto'n aros ar ôl ac yn sefyll i siarad â rhywrai ar y ffordd, hyd nes bod Prince ymhell ar y blaen ac wedi mynd allan o'r golwg. Ond yna, meddai Glanffrwd, i ffwrdd â Guto

> fel yr hydd dros ddôl, ac fel y gwelid ei fod yn ennill tir, cynddeiriogai ei wrthwynebwyr, a thaflent wydr ar hyd y ffordd i dreio torri ei draed a pheri iddo lithro, ond neidiai yntau dros lathenni o dir a dihangai fel yr ewig, a phan oedd yn myned i fyny i riw led serth tuag Eglwys y Bedwas goddiweddodd Guto Prince, ac aeth heibio wedi gofyn iddo a fedrai ef ddim dyfod dipyn yn gynt [...] a chyrhaeddodd ben y deuddeg milltir, saith munud o dan yr awr.

'Yr oedd cannoedd lawer o bunnoedd wedi cael eu betio ar y rhedegfa,' meddai Glanffrwd, a neb wedi betio'n fwy na 'chyfeilles orau Guto', Siân o'r Siop, a oedd (fe ddywedir) wedi anturio 'llond ei harffedog o aur ar draed Guto'. Cymaint oedd ei llawenydd wrth ei weld yn ennill fel y rhedodd Siân at Guto gan weiddi 'Guto Nyth-brân am byth. *Well done*, Guto!' a rhoi clap cryf ar ei gefn, 'heb ystyried ei fod wedi rhedeg yn galed, a bod ei galon yn curo yn gyflym mewn canlyniad i'w ymdrech.' Ac meddai Glanffrwd, 'Yr oedd y clap yn rhy drwm, neidiodd ei galon o'i lle, a therfynodd Guto nid yn unig redegfa o ddeuddeg milltir, ond rhedegfa ei fywyd yn y byd hwn.' Fe'i claddwyd ym mynwent Llanwynno ac mae ei fedd i'w weld yno hyd heddiw.

Adrodd hanes ras olaf Guto a wna'r bardd a'r cyfreithiwr o Rosllannerchrugog, I. D. Hooson (1880–1948), yn ei faled 'Guto Nyth Brân', a hynny'n briodol iawn ar fesur triban Morgannwg – er y dylid nodi mai ras rhwng Guto a cheffyl, ac nid yr un rhyngddo a'r Sais, yw ei ras olaf ym maled I. D. Hooson. Dyma dri phennill agoriadol y faled ugain-pennill honno:

> Mae mynwent yn Llanwynno
> (Ni wn a fuost yno)
> Lle rhoddwyd Guto o Nyth Brân
> Dan raean mân i huno.
>
> Ysgafndroed fel 'sgyfarnog,
> A chwim oedd Guto enwog –
> Yn wir, dywedir bod ei hynt
> Yn gynt na'r gwynt na'r hebog.
>
> Enillodd dlysau lawer;
> Ond hyn sy'n drist, gwrandawer –
> Fe aeth i'w fedd, cyflymed oedd,
> Flynyddoedd cyn ei amser

Yna, mae I. D. Hooson yn mynd yn ei flaen i adrodd hanes y ras rhwng Guto a'r 'march a'i farchog' a'i diwedd cyffrous:

> Nid oes ond canllath eto . .
> Ond ugain . . decllath eto . .
> A dacw'r march yn fawr ei dwrf
> Bron wddf am wddf â Guto.
>
> Ysbardun llym a fflangell
> Sy'n brathu'r march fel picell –
> Ni thycia ddim; mae Guto chwim
> O'i flaen ar draws y llinell.

Ac wedi darlunio Guto'n trengi ar ôl i'w gariad guro ei gefn ac yna sôn am ei feddfaen, mae'r faled yn gorffen trwy adleisio ei phenillion agoriadol:

Ac yno yn Llanwynno
Yr huna Guto eto;
Cyflymed oedd – ni all y llanc
Byth ddianc oddi yno.

Er bod rhedeg yn un o bedair camp ar hugain Cymru'r Oesoedd Canol, 'nid oes', meddai'r arbenigwr ar chwaraeon gwerin, Tecwyn Vaughan Jones, 'fawr o dystiolaeth hanesyddol am rasio ar droed yng Nghymru cyn y 18fed ganrif. [...] Yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif y daeth rasio i fri a chrëwyd amryw o arwyr gwerin yn y cyfnod hwn' – a Guto Nyth-brân yn un o'r pennaf a'r cynharaf ohonynt.

Perthyn i'r Forgannwg gyn-ddiwydiannol y mae Guto Nyth-brân. Yn wir, dywedir fod ei waith fel amaethwr ar fynydd-dir y Blaenau wedi cyfrannu at ei lwyddiant fel rhedwr. Meddai'r cenedlaetholwr Cymreig Torïaidd o Drealaw, H. W. J. Edwards (1910–91), 'The story goes that his speed and endurance were developed by daily chasing of the silly but fast breed of sheep, which, by the way, climb like cats.' A dywed Glanffrwd mai ffordd Guto o baratoi i redeg oedd cysgu 'yn y domen dail frwd [h.y. cynnes, twym] o flaen yr ystabl, yr oedd ei gwres naturiol yn effeithio er ei ystwytho, nes bod ei gyhyrau fel ffrewyllau, a'i aelodau fel *whalebones* hyblyg'.



***'Y cerflun o Guto Nyth-brân gan Peter W. Nicholas a ddadorchuddiwyd yn Aberpennar yn 1990.' https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Gutonythbran.jpg***

Ond yn y 19eg ganrif, roedd dwyrain Morgannwg yn lle gwahanol iawn i'r hyn ydoedd yn oes Guto Nyth-brân. Y rheswm am hynny oedd y diwydiannu a'r trefoli mawr a ddechreuodd o ddifrif yno yn ystod ail hanner y 18fed ganrif. Poblogaeth eithaf bychan, a honno wedi ei gwasgaru'n bur denau, oedd poblogaeth Blaenau Morgannwg yn nyddiau Guto. Ond yn ystod y 19eg ganrif, gwelwyd trefi a phentrefi yn codi yno fel madarch o gwmpas y gweithfeydd haearn a'r pyllau glo, a phorthladd fel Caerdydd hefyd yn tyfu'n sylweddol oherwydd y diwydiannu hwnnw. Arwydd o anferthedd y newidiadau cymdeithasol a demograffig hyn yw'r ffaith fod poblogaeth de-ddwyrain Cymru wedi neidio o tua 100,000 yn 1800 i tua 400,000 erbyn 1850.

Roedd tipyn o fri ar rasio ar droed yn ne-ddwyrain Cymru yng nghyfnod Guto Nyth-brân. Ond erbyn y 19eg ganrif, oherwydd y twf mawr yn y boblogaeth, roedd wedi dod yn adloniant poblogaidd ar raddfa fwy o lawer, gyda'r rhedegfeydd yn denu torfeydd enfawr, a rhai yn tyrru iddynt o bellter i wylio ac i fetio. Fel y tystia betio trwm Siân o'r Siop, roedd yr ochr ariannol yn wedd bwysig iawn ar yr achlysuron hynny, ac roedd gan drigolion y trefi diwydiannol newydd, byrlymus, dipyn mwy o arian yn eu pocedi, at ei gilydd, na hen werin amaethyddol y bryniau.

Cawn enghraifft o faint y tyrfaoedd a fyddai'n gwylio'r rhedegfeydd mewn adroddiad papur-newydd yn Rhagfyr 1845 am ras ddwy-filltir rhwng William Bevan o Bont-rhyd-y-fen, un o brif redwyr Morgannwg, ac Evan Weir, a lysenwyd 'The Maindy Boy'. Ac meddai'r adroddiad: 'The ground chosen was from Rumney Bridge to the Railway Bridge at Cardiff. Notwithstanding the unpropitious state of the weather, upwards of 2000 persons had congregated to witness the contest.' Ac nid eithriad mo tyrfaoedd o'r fath.

Roedd y rhedegfeydd hyn yn achlysuron cyffrous a chynhyrfus. Roeddynt hefyd yn achlysuron a barai nid ychydig o ofid i'r awdurdodau ar adegau. Er enghraifft, yn nechrau Ionawr 1846 roedd ras o 200 llath wedi ei threfnu rhwng Rees Meredith o Aberdâr a William Robinson o Newton Moor yn Swydd Stafford, mewn man ar yr heol rhwng Caerdydd a Merthyr, tua dwy filltir i'r gogledd o Gaerdydd (ar Waun Treoda yn yr Eglwys Newydd, mae'n debyg). Roedd popeth yn barod, a thua thair mil wedi ymgynnull i'w gwylio, pan ddaeth cyhoeddiad fod yr ynadon yn gwrthod caniatáu i'r ras gael ei chynnal. Ac o'r herwydd, bu raid symud y ras i'r ochr arall i afon Rhymni, i sir Fynwy, y tu allan i diriogaeth yr ynadon.

Gyda'r fath dorfeydd yn crynhoi a chymaint o arian yn cyfnewid dwylo, nid yw'n syndod fod pob math o gynnen a chythrwfl a chamymddwyn yn digwydd ar yr achlysuron hynny. Nid y gwydr a daflwyd ar lwybr Guto Nyth-brân yw'r unig enghraifft o bell ffordd o chwarae triciau brwnt yn rasys troed Morgannwg!

Cawn enghraifft o hyn mewn adroddiad papur-newydd am ras filltir ar yr heol i Ferthyr ychydig i'r gogledd o Gaerdydd yn Awst 1844. Dywedir yn y papur fod un o'r ddau redwr, Howell Powell o Aberdâr, wedi ei faglu gan 'a little urchin who crossed the road just as he was coming up to him, it is supposed, by "accident"'. Ac meddai adroddiad papur-newydd arall: 'When Powell was about six or seven yards from the winning-post some person, it is supposed of the opposite party, shoved a boy out of the crowd, who came in contact with Powell, which was the cause of him and the boy having a complete sumerset [h.y. somersault].'

Yn yr achos hwnnw, llwyddodd Howell Powell i godi ac ennill y ras o rai llathenni. Ond nid felly yn achos ras ar y Mynydd Bychan yng Nghaerdydd yn gynharach yn 1844, pan gafodd un o'r rhedwyr ei rwystro gan un o gefnogwyr y rhedwr arall, a thrwy hynny golli'r ras. Ac fel y gellid disgwyl, dilynid digwyddiadau o'r fath gan gynnwrf a drwgdeimlad.

Canrif ar ôl marw Guto Nyth-brân, daeth rhedwr arall i'r amlwg ym Morgannwg, yr hawlid ei fod yn ail agos fel rhedwr i Guto. Ei enw oedd John Davies, a lysenwyd 'Y Cyw Cloff' – ond cawn sôn amdano ef a'i gampau y tro nesaf, os byw ac iach.

(*I'w barhau*)